**Dyddiad /**Date: 4 March 2020
**Gofynnwch am/**Please ask for: D Hopkins
**Llinell uniongyrchol/**Direct line: [redacted]
**Ebost/**Email: [redacted]

Janet Finch-Saunders, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Ms Finch-Saunders,

**Deiseb P-05-893 Achub Ein Parciau yng Nghymru**

Ymddiheuraf am yr oedi wrth ymateb i'ch llythyr ar y mater hwn, dyddiedig 30 Medi 2019.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn deall gwerth parciau, ardaloedd chwarae, a mannau gwyrdd, ac mae'r rhain yn asedau pwysig i bobl Cymru. Mae'r cyfleusterau hyn yn ychwanegu gwerth at gymunedau lleol ac yn gymorth i iechyd a lles cyffredinol y cymunedau.

Mae enghreifftiau gwych o barciau a mannau agored eraill sy'n cael eu cynnal yn dda mewn sawl ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r esiamplau hyn wedi eu cynnal yn erbyn cefndir o galedi yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus dros rai blynyddoedd. Mae ystâd gyfan awdurdodau lleol sy'n cynnwys parciau, mannau agored, caeau chwarae a llwybrau troed, yn sylweddol o ran maint, ac yn gyffredinol brysur.

Fodd bynnag, mae'n bwysig deall nad cyfrifoldeb y 22 awdurdod lleol yng Nghymru yw'r holl barciau a mannau agored: Mae'r Cynghorau hyn yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, a sefydliadau'r trydydd sector ar draws Cymru. Mae'r cydweithio hwn yn werthfawr wrth ystyried modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaeth cynaliadwy sy'n gallu cefnogi lles cymunedol. Gallai hyn gynnwys rhaglenni trosglwyddo gwasanaethau ac asedau cymunedol, er enghraifft, wedi eu cynllunio i alluogi cymunedau i ychwanegu at neu gynnal gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei gefnogi gan nifer o raglenni grant cenedlaethol gan y Llywodraeth a'r Loteri Fawr, gyda'r nod o gefnogi dinasyddion a chymunedau i gymryd rhan yn y broses o siapio a datblygu eu hardaloedd lleol.

Yn gyffredinol fodd bynnag, dull gweithredu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yw cefnogi'r egwyddor mai awdurdodau lleol a ddylai benderfynu ar wariant, gan ystyried angen lleol a'r cyllid sydd ar gael. Mae hynny'n golygu y dylai unrhyw ddyletswyddau neu ofynion

CLlLC • WLGA

Dr Chris Llewelyn
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales


@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

ychwanegol sy’n cael eu gosod ar awdurdodau lleol, fod wedi eu diffinio a’n eglur a’u cyllido’n llawn.

Felly er y byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn hyrwyddo’r syniad y dylid cynnal mannau gwyrdd i safon sy’n briodol ar gyfer y defnydd y’u bwriadwyd, nid yw clustnodi cyllid ar gyfer rheoli mannau gwyrdd yn rhywbeth y byddai awdurdodau lleol yn dymuno ei weld yn digwydd. Yn hytrach, mae cyllid cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ar lefel sy’n galluogi dyrannu adnoddau lleol ar draws yr holl wasanaethau yn unol ag anghenion a chynlluniau pob awdurdod lleol, yn cael ei ffafrio ar draul cyllid penodol neu wedi ei dargedu.

**Yn gywir / Yours sincerely**



**Pennaeth Addysg dros dro**
**Interim Head of Education**

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio’r naill iaith na’r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.